


**Cylchlythyr ar gyfer Gwirfoddolwyr a Chyfeillion Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Fynwy**

**Rhifyn 28** **Gorffennaf 2016**

## Croeso

Mae'r rhifyn yma o'r cylchlythyr yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf ar Gofal Llwybrau, arolygu pontydd a phrosiectau eraill hawliau tramwy, canllaw newydd-ddyfodiad i safleoedd cefn gwlad de Sir Fynwy a'r rhaglen teithiau tywys hyd fis Medi. Mae cymaint i'w fwynhau yng nghefn gwlad Sir Fynwy dros yr haf, felly gobeithiaf y manteisiwch ar y cyfle i fynd allan yno a gadael i ni wybod beth a welwch.

Os oes gennych sylwadau neu gwestiynau neu os hoffech gyfrannu at gylchlythyrau'r dyfodol, cysylltwch os gwelwch yn dda â Morag Sinton, Cydlynydd Gwirfoddolwyr Cefn Gwlad ar 01633 644663 neu moragsinton@monmouthshire.gov.uk

## Safleoedd Cefn Gwlad yn Ne Ddwyrain Sir Fynwy

Bûm yn gweithio pedair awr ychwanegol bob wythnos rhwng mis Ionawr a mis Mehefin yn gwirio pum safle yn ne ddwyrain Sir Fynwy. Bu'n bleser dod i'w hadnabod ac edrych wrth i ni symud o'r gaeaf llwm i ddechrau haf toreithiog. Dyma daith gyflym iawn, gyda rhai o'r uchafbwyntiau o'r hyn a welais. Gobeithiaf y cewch chithau eich ysbrydoli i ymweld.



Mae maes parcio **Ffwrnais Abaty Tyndyrn** a **Gwaith Gwifren Isaf** yng Nghwm Angidy uwchben Tyndyrn. Maent ar lwybr llwybr pell Tewdrig o Dyndyrn i Fatharn, yn ogystal â Llwybr Angidy sy'n cysylltu'r holl safleoedd archeolegol diwydiannol yn y cwm. Ddechrau mis Mai roedd glannau Ffwrnais Abaty Tyndyrn yn gyforiog o sawdl y fuwch, mwy nag a welais gyda'i gilydd erioed o'r blaen.



Mae **Warren Slade** a **Parc Redding** yn ffurfio coridor coetir hyfryd yng Nghas-gwent, gyda Llwybr Arfordir Cymru yn rhedeg drwyddo. Mae'n her gweld pob un o'r deuddeg cerflun

metel o fywyd gwyllt yn y coed, a mwynheais y gwanwyn yn datblygu o seren y gwanwyn i orthyfail, drwy flodau'r gwynt, fioledau a chlychau'r gog.
Gwelais hefyd sêr daear yno ym mis Chwefror.





Mae **ardal picnic y Graig Ddu** hefyd ar Lwybr Arfordir Cymru. Mae golygfeydd ysblennydd o hen gei'r fferi dros yr Hafren a'r bont gyfagos, yn newid yn barhaus gyda'r llanw a'r tywydd.

Mae **Parc Gwledig Rogiet** yn safle hir a main, a arferai fod yn iardau cynnull ar gyfer y rheilffordd. Gan fod natur wedi ailhawlio'r ardal, mae digonedd o fywyd gwyllt a phlanhigion anarferol yma. Gwelais lwynog yn rhedeg ar draws tir agored ac ym mis Mehefin roedd carpedi o feillion hopysaidd a mefus gwyllt.

## Gofal Llwybrau

### Gwiriad Haf

Bydd gwirfoddolwyr yn cynnal y gwiriadau haf Gofal Llwybrau yn ystod Mehefin a Gorffennaf. Gyda thyfiant ar ei anterth, mae llawer o'r gwaith yn cadw drain a danadl poeth rhag tyfu dros arwyddion a chelfi llwybrau, felly peidiwch anghofio eich secateurs a'ch menig pryd bynnag yr ydych allan yn cerdded. Mae pob tociad yn helpu!

### Lleoedd Gwag Gofal Llwybrau

Byddai Jill Taylor yn gwerthfawrogi cael rhywun i'w helpu i ofalu am lwybrau yn ardal Llanarth. Gadewch i mi wybod os gallwch helpu os gwelwch yn dda ac fe'ch rhoddaf mewn cysylltiad.

Mae angen gwirfoddolwyr ar gyfer y llwybrau Gofal Llwybrau dilynol:

- Llwybr Dyffryn Gwy, Cas-gwent i Brockweir
- Coedwig Gwent a Bryn Llwyd

Rhowch wybod i mi os gwelwch yn dda os hoffech fwy o fanylion.

### Gwiriad Gwanwyn

Cafodd gwiriadau eu gorffen ar 45 o'r 62 llwybr yn ystod y gwanwyn. Treuliodd gwirfoddolwyr 214 awr ar Ofal Llwybrau, yn gyfwerth â 289 diwrnod o amser staff. Mae hon yn ymdrech wych sydd i gyd yn helpu i gadw'r llwybrau ar agor ac mewn cyflwr da. Diolch i bawb.

### Grwpiau Gofal Llwybrau

Cafodd **Croeso i Gerddwyr Cas-gwent** sesiwn hyfforddiant min nos ym mis Ebrill ar gyfer aelodau'r grŵp sydd â diddordeb mewn Gofal Llwybrau. Roedd y sesiwn yn cynnwys sgwrs ddechreuol ar hawliau tramwy lleol yn Neuadd Bentref Itton a thaith gerdded o'r eglwys. Roedd yn noswaith hyfryd o wanwyn ac yn gyfle da i drafod materion ymarferol gofal llwybrau a rhai o'r problemau a welwn.

Bu aelodau'r grŵp llwybrau yn **Y Narth** yn arolygu llwybrau yn eu hardal ac yn llunio rhaglen waith. Mae llawer o'u llwybrau mewn coetiroedd Cyfoeth Naturiol Cymru felly buont yn cydlynu gyda thîm Cyfoeth Naturiol Cymru i symud coed sydd wedi cwympo a thrafod opsiynau ar gyfer delio gyda phont droed sy'n dirywio ar lwybr heb ei ddiffinio. Dylai llawer o'r problemau a gawsant gael eu datrys drwy wella'r cyfeirnodi fel rhan o ddiwrnod gwaith ymarferol gyda'r Swyddog Maes Mike Noakes dros yr haf.

## Arolygon Pontydd

Diolch yn fawr i'r gwirfoddolwyr sydd wedi helpu gyda phrosiectau arolygu pontydd mewn misoedd diweddar. Hyd yma cafodd y rhan fwyaf o'r pontydd llai ar lwybrau yn ne'r sir eu harolygu a chafodd y manylion eu rhoi ar y gronfa ddata hawliau tramwy. Byddwn yn canolbwyntio ar y pontydd yng ngogledd y sir nesaf. Os oes gennych ddiddordeb mewn helpu gyda'r prosiect (ac efallai ddarganfod rhai rhannau llai cyfarwydd o Sir Fynwy), cysylltwch â Morag Sinton os gwelwch yn dda.

## Diweddariad ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus

**Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa**

Caiff £12,700 eu gwario ar ddarn Sir Fynwy o Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa eleni, diolch i grant Llwybr Cenedlaethol gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd hyn yn talu am dorri gwair ar y llwybr ym Mehefin a mis Medi. Bydd hefyd yn talu am gynnal a chadw cyffredinol, wyneb newydd yng Nghoedwig y Brenin, gwelliannau yn Llanfihangel Ystern Llewern ac adroddiad peiriannydd i gadarnhau fod y bont fetel yn Stryd Caggle yn dal yn ddiogel. Cafwyd nifer o negeseuon yn canmol cyflwr y llwybr, yn arbennig bod yr arwyddion yn dda, a rhaid diolch i wirfoddolwyr am eu gwaith parhaus yn gwirio'r llwybr ac yn gofalu amdano.

**Cynllun Gwella Hawliau Tramwy**

Caiff Cynllun Gwella Hawliau Tramwy eu diwygio. Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi canllawiau ac maent ar gael yma http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/previous-administration/2014/accessoutdoorrecreation/?skip=1&lang=cy. Yn bwysig, mae'r broses yn cynnwys cyfleoedd i gynifer o bobl ag sydd modd i gymryd rhan. Mae eich barn yn bwysig i ni a hoffem yn neilltuol gofnodi straeon o sut mae mynediad i gefn gwlad wedi bod o fudd i chi. Bydd hyn yn cryfhau ein sefyllfa ac yn rhoi tystiolaeth hanfodol i gael grantiau a chyllid gan bartneriaid yn y dyfodol.

Cafodd y grant Rhaglen Gwella Hawliau Tramwy a weinyddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ei gadarnhau'n ffurfiol erbyn hyn. Gwerir £41,304 yn bennaf ar brosiectau cynnal a chadw. Caiff y prosiectau eu hyrwyddo'n unigol fel y cânt eu datblygu a bydd mwy o fanylion yn y cylchlythyr nesaf.



**Gorfodaeth**

Mae cnydio llwybrau bob amser yn broblem yr adeg hon o'r flwyddyn. Gofynnir i chi hysbysu'r cyfeiriad e-bost ar waelod y cylchlythyr am unrhyw broblemau a welwch. Diolch i'r tirfeddianwyr hynny sy'n ailosod eu llwybrau ar ôl troi'r tir a chnydu. Fodd bynnag, mae nifer o lwybrau wedi eu rhwystro ac arweiniodd hyn at gyhoeddi nifer o lythyrau gorfodaeth a chymryd camau uniongyrchol ar Lwybr Clawdd Offa.

**Ruth Rourke** Prif Swyddog Mynediad I Gefn Gwlad

## Gyrru Anghyfreithlon Oddi ar y Ffordd

Mae gwirfoddolwyr Gofal Llwybrau weithiau'n dod ar draws beiciau modur neu gerbydau eraill mewn lleoedd na ddylent fod, yn cynnwys coetiroedd sy'n eiddo neu'n cael eu rheoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru (gynt Gomisiwn Coedwigaeth Cymru).

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd ei rôl mewn ceisio atal mynediad heb awdurdod i gerbydau oddi ar y ffordd o ddifrif, ac mae hyn yn rhan hanfodol o'u rhaglen waith rheoli stad. I

alluogi hyn, maent yn cefnogi'r heddlu i'w helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol fel beiciau modur oddi ar y ffordd anghyfreithlon ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda Heddlu Gwent drwy noddi Cytundeb PCSO.

Yn anffodus mae'r math yma o weithgaredd gwrthgymdeithasol yn broblem barhaus. Er y gallant atal defnyddwyr drwy osod rhwystrau corfforol megis blociau carreg a ffensys mewn coedwigoedd, dim ond yr heddlu sydd â phŵer ac awdurdod i atal y math yma o weithgaredd dan adran 59 Deddf Diwygio'r Heddlu ac adran 34 Deddf Traffig Ffordd 1988.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eich annog i hysbysu'r heddlu yn uniongyrchol am ddigwyddiadau drwy ffonio 101, pan fo digwyddiadau o'r fath yn mynd rhagddynt os oes modd. (Os oes difrod troseddol yn cael ei achosi neu os ydych yn teimlo dan fygythiad dylech ffonio a'i hysbysu ar unwaith ar 999). Ym mhob achos, dylid cael cyfeirnod digwyddiad neu drosedd. Byddai Jo-Anne Anstey o Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiolchgar pe gallech iddi gael manylion llawn yn cynnwys y cyfeirnod fel y gellir hysbysu tîm gwybodaeth fewnol Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae casglu'r wybodaeth yma'n galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi'r heddlu i helpu mynd i'r afael gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol o'r fath.

Mae gwell canlyniadau os caiff yr heddlu eu galw adeg digwyddiadau o'r fath. Dylai galwadau gynnwys cymaint o wybodaeth ag sydd modd h.y. nifer beiciau / disgrifiadau / unrhyw gerbydau eraill (a rhifau cofrestru) y gellir eu gweld yn cario beiciau i'r lleoliad ac ati. Ni ddylech roi eich hunan mewn perygl wrth adrodd neu gofnodi digwyddiad.

**Jo-Anne Anstey**, Rheolwr Ardal Leol Dwyrain, Cyfoeth Naturiol Cymru
Ffôn: 0300 065 5088 neu E-bost: Jo-Anne.Anstey@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

## Gardd Gymunedol



Bu gwirfoddolwyr yn brysur yn yr ardd gymunedol newydd yn Neuadd y Sir ger Brynbuga. Mae'r ardd yn cynnwys ardal beillio i annog pryfetach, mae'n gartref i naw cwch gwenyn ac yn ardal gymunol ar gyfer tyfu ffrwythau a llysiau. Cafodd ei hariannu drwy brosiect Peillwyr am Oes, Cronfa Natur Llywodraeth Cymru.



Ar Ddiwrnod Amgylchedd y Byd, treuliodd ugain o wirfoddolwyr o fragdy ABinBev ym Magwyr ddiwrnod yn chwynnu, plannu planhigion deniadol i beillwyr ac adeiladu 'gwesty clêr'.
.
Bu gwirfoddolwyr GOAL, sy'n gweithio'n gyson gyda'r warden Mark Langley, hefyd yn brysur yn yr ardd gyda thasgau'n cynnwys gosod ffensys cwningod. Ymunodd gwirfoddolwyr cynnal a chadw hawliau tramwy gyda nhw yn ddiweddar, gan roi sgiliau ar waith a ddefnyddir fel arfer i osod pontydd neu drwsio camfeydd, i wneud cynwysyddion ar gyfer planhigion dringo.

Mae croeso mawr i chi ymweld â'r ardd os ydych yn Neuadd y Sir i fwynhau'r amgylchedd tawel.

# Eisteddfod Genedlaethol

**29 Gorffennaf i 6 Awst 2016**

Cynhelir yr Eisteddfod Genedlaethol eleni ar Ddolau'r Castell yn y Fenni. Mae'n lleoliad hyfryd ar lannau'r Afon Wysg gyda golygfeydd i'r bryniau o amgylch - hysbyseb wych i gefn gwlad Sir Fynwy. Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau ar baratoi'r safle, yn cynnwys ffensio'r brif ardal a chau un llwybr cyhoeddus. Mae'r llwybr a'r tir ger yr afon yn dal i fod ar gael ar gyfer cerddwyr a seiclwyr. Caiff y safle ei adfer yn llawn ar ôl y digwyddiad.

Ni chynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Fynwy ers 1913, felly mae'n werth manteisio i'r eithaf ar y cyfle yma o gael digwyddiad diwylliannol enfawr ar garreg ein drws. Edrychaf ymlaen at weld rhai ohonoch yno.

# Teithiau Tywys

Mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad yn trefnu rhaglen o deithiau cerdded a gynhelir fel arfer ar ddydd Sadwrn cyntaf a thrydydd dydd Sul pob mis. Mae arweinwyr y teithiau cerdded yn wirfoddolwyr cefn gwlad, sy'n dod â'u harbenigedd a'u gwybodaeth leol. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â Mark Langley, Prif Warden Cefn Gwlad, 01291 691237 os gwelwch yn dda.

**Dydd Sul 17 Gorffennaf 2016**

## Coedwigoedd, caeau a golygfeydd gwych - Coedwig Fedw a Devauden

10.30am (Tua 2.5 awr) 4.5 milltir (7.5 km)
Taith gerdded drwy dir amaethyddol a choetir. 7 camfa a 2 lethr serth.
Cwrdd yng Nghoedwig Fedw wrth ymyl y B4293 rhwng St. Arvans a Devauden. (ST 505 984). Cod Post NP16 6HJ.

**Dydd Sadwrn 6 Awst 2016**

## Dros y bryn i Gwmcarfan

10.30am (Tua 4 awr) 5 milltir (8 km)
Taith gerdded o bentref Lanfihangel Troddi i eglwys Camcarfan drwy Fryn Craig y Dorth. Golygfeydd gwych o'r Mynydd Du a gogledd Sir Fynwy. Llawer o gamfeydd a 3 llethr serth. Dewch â chinio pecyn a diod.
Cwrdd yn y maes parcio ger yr eglwys ym mhentref Llanfihangel Troddi
(SO 492 104). Cod Post NP25 4HT.
Gellir dod i Lanfihangel Troddi ar y bws. Cysylltwch â www.traveline.org.uk i gael mwy o wybodaeth. Ffôn: 08712 002 233 bob dydd rhwng 7.00am a 9.00pm. Neges destun 84268.

**Dydd Sul 21 Awst 2016**

## Tai hynafol, cronfeydd cudd a golygfeydd godidog

9.30am (Tua 3 awr) 6 milltir (10km)
Taith gerdded wledig mewn rhan llai cyfarwydd o Sir Fynwy. Llanhenwg i Landegfedd. Golygfeydd gwledig, tai hynafol a chronfeydd dŵr cudd. Llawer o gamfeydd a rhai llethri gweddol serch. Dewch â rhywbeth i'w yfed a'i fwyta.
Cwrdd ym maes parcio'r Wheatsheaf Inn yn Llanhenwg (ST 353 928). Cod Post NP18 1LT.

**Dydd Sadwrn 3 Medi**

## Stad Clytha

10.00am (Tua 2 awr) 3 milltir (5km)
Taith gerdded ar lwybrau drwy dir amaethyddol a choetir, yn dilyn llwybr cylch yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol o amgylch Stad Parc Clytha. Un llethr rhwydd i Gastell Clytha, 7 camfa.
Gardd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Clytha. (SO 361 085). Cod Post NP7 9BW.

**Dydd Sul 18 Medi 2016**

### Golygfa wahanol o'r Ysgyryd

9.30am (Tua 4.5 awr) 6 milltir (9.5km)
Mae'r daith gerdded yma'n dilyn Llwybr y Bannau i ben Ysgyryd Fawr, yna'n ôl ar lwybr lefel isel. Golygfeydd hardd o'r Fenni a'r wlad o amgylch. Dewch â chinio pecyn a diod. Llethri serch i fyny a lawr yr Ysgyryd, lonydd i fyny ac i lawr, rhai camfeydd.
Cwrdd ym maes parcio Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ysgyryd Fawr (ffi parcio £3) ar y B44521 o'r Fenni i Ynysgynwraidd (SO 328 164). Cod Post NP7 8AP.

### Croeso i Gerddwyr Trefynwy

Dydd Sadwrn 9 Gorffennaf 2016 - Taith gerdded 8 milltir Cymin a Suckstone
Dydd Llun 29 Awst 2016 - Taith gerdded tafarn 4 milltir a barbeciw
Cyswllt: Tristan Blanchard ar blanchard82@hotmail.co.uk i gael mwy o fanylion.

## Gwefannau a'r Rhyngrwyd

Mae rhai ffurflenni ar gyfer gwirfoddolwyr (hawlio treuliau, dalen amser, ffurflen arolwg Gofal Llwybr) ar gael i'w lawrlwytho'n uniongyrchol o wefan Cyngor Sir Fynwy yma.

Gallwch hefyd weld copi gwaith o'n map diffiniol o hawliau tramwy cyhoeddus yn http://access.monmouthshire.gov.uk, lawrlwytho tudalennau i'w hargraffu a rhoi adroddiad am unrhyw broblemau a welwch.

Mae gwybodaeth a dogfennau hefyd ar gael o wefan Cefn Gwlad Sir Fynwy ar hyn o bryd - http://www.monmouthshirecountryside.wordpress.com. Caiff llawer o gynnwys y safle ei symud i wefan Ymweld â Sir Fynwy www.visitmonmouthshire.com yn y dyfodol agos.

## Manylion Cyswllt

Gwsanaeth Cefn Gwlad
Cyngor Sir Fynwy
Blwch Swyddfa’r Post 106
Cil-y-coed
Sir Fynwy
NP26 9AN

01633 644850
countryside@monmouthshire.gov.uk

Morag Sinton
Cydlynydd Gwirfoddolwyr
01633 644663
moragsinton@monmouthshire.gov.uk